Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Hydref 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

Cefndir

1. Ar 17 Gorffennaf 2014, gosododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

2. Ar 16 Medi 2014, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'r Pwyllgor Menter a Busnes i'w drafod, a chytunwyd i gyflwyno adroddiad erbyn 16 Hydref 2014.

3. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 24 Medi.

Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ("y Bil")

4. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ("BIS"). Prif amcanion polisi BIS ar gyfer y Bil yw creu cyfleoedd newydd i fusnesau bach gystadlu, cael mynediad at gyllid i greu swyddi, tyfu, arloesi ac allforio.

5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch:

- gwell mynediad at gyllid ar gyfer busnesau ac unigolion;
- rheoleiddio busnes a rhai cyrff gwirfoddol a chymunedol;
- sut mae rhai awdurdodau cyhoeddus yn arfer eu swyddogaethau caffael;
- creu Cod Tafarndai a Dyfarnwr i reoleiddio trafodion rhwng busnesau sy'n berchen ar dafarndai a'r tenantiaid sy'n gysylltiedig â'r tafarndai;
- rheoleiddio'r ddarpariaeth gofal plant a'r ddarpariaeth gwybodaeth am werthuso addysg;
- rheoleiddio cwmnïau;
- gofynion ffeilio cwmnïau;

- anghymhwyso o benodiadau sy'n ymwneud â chwmnïau; a darpariaeth ynghylch ansolfedd;
- y gyfraith sy'n ymwneud â chyflogaeth; ac at ddibenion cysylltiedig.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

6. Mae dwy ddarpariaeth yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer:

Rhan 1-Cyllid	Cymal 9	Allforion
Rhan 6-Addysg a Hyfforddiant	Cymalau 67-69	Gwerthusiad Addysg

Cymal 9: Allforion - Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 Deddf Gwarantau Allforio a Buddsoddi 1991

7. Mae cymal 9 yn diwygio adran 1 o Ddeddf Gwarantau Allforio a Buddsoddi 1991 mewn tair ffordd.

- Mae'r adran ddiwygiedig 1(1) yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan weithredu drwy'r Adran Gwarantu Credydau Allforio, wneud trefniadau y mae'n ystyried yn ffafriol i gefnogi neu ddatblygu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) allforion neu allforion posibl ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu asedau anniriaethol gan bersonau sy'n cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig.

- Hefyd, bydd adran ddiwygiedig 1(1) yn ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran cymorth ar gyfer allforion mewn rhai agweddau. Yn bennaf, bydd yn ei gwneud yn haws i'r Ysgrifennydd Gwladol gefnogi strwythurau contractio allforio mwy cymhleth, er mwyn cefnogi busnesau sydd ynghlwm wrth allforio neu gadwyni cyflenwi allforio yn y Deyrnas Unedig ac i ddarparu cefnogaeth ar gyfer allforio eitemau anniriaethol, fel trwyddedau meddalwedd neu eiddo deallusol arall.

- Mae'r rhan newydd 1(5) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyngor i allforwyr, ar ben y cymorth ariannol y mae eisoes ganddo'r grym i'w ddarparu.

8. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru, ond nid ydynt yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru.

9. Er bod gan Weinidogion Cymru rai pwerau i'w galluogi i gynorthwyo allforwyr, yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig sydd â phwerau cymorth mewn perthynas ag allforio nwyddau a gwasanaethau trwy gyfrwng gwarantau allforio o dan Adran 1 y Ddeddf Gwarantau Allforio a Buddsoddi 1991.

Cymalau 67-69: Gwerthusiad Addysg

10. Mae'r tri chymal unigol, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn ymdrin â gwerthuso addysg ac yn ceisio ei gwneud yn haws i rannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru, Adrannau Llywodraeth y DU, ysgolion, colegau a chanolfannau asesu. Ymdrinnir â phob cymal yn unigol isod.

Cymal 67: Asesiadau o effeithiolrwydd

11. Mae'r cymal hwn yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 ("Deddf 2008") i ehangu'r wybodaeth y gellir ei rhannu o dan y Rhan honno, ac at ba ddibenion y gellir ei defnyddio.

12. Yn benodol, mae Cymal 67 yn galluogi rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru a phobl eraill, er enghraifft, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr er mwyn asesu pa mor effeithiol yw addysg a hyfforddiant.

13. Yn Neddf 2008, mae gan Weinidogion Cymru eisoes yr hyn y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn galw yn "borth deddfwriaethol" i alluogi cysylltu data myfyrwyr addysg bellach gydag enillion HMRC a chofnodion cyflogaeth. Fodd bynnag, maent yn dweud bod angen deddfwriaeth i ehangu hynny i gynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr ysgolion ac addysg uwch.

14. Mae paragraff 20 y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

> “Extending the current gateway to include schools and higher education student data will allow the Welsh Ministers (and HEFCW, for example) to hold this link data in an anonymised form and analyse it, to provide new and improved information on learning outcomes by tracking students through education into the labour market.”

15. Mae Cymal 67 yn gymwys mewn perthynas â Chymru ac nid oes unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wedi'u cynnwys ynddo.

Cymal 68: Cymwysterau

16. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran newydd 253A yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009"). Mae adran newydd 253A yn galluogi pobl yng Nghymru a Lloegr i rannu "gwybodaeth myfyrwyr" gydag amrywiaeth o bobl.

17. Caiff "gwybodaeth myfyrwyr" ei ddiffinio yn isadran (6) o adran newydd 253A fel gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn sy'n ceisio neu sydd wedi ceisio cael, neu wedi cael, "cymhwyster wedi'i reoleiddio" fel y'i diffinnir gan adran 130 o Ddeddf 2009 neu "gymhwyster perthnasol" fel y'i diffinnir gan Adran 30 o Ddeddf Addysg 1997.

18. Gellir ond rhannu gwybodaeth myfyrwyr o dan adran newydd 253A os yw'n dod o fewn disgrifiad a ragnodwyd mewn rheoliadau. Bydd y rheoliadau hefyd yn pennu'r amgylchiadau y gellir rhannu gwybodaeth myfyrwyr a'r bobl neu'r categorïau o bobl y gellir rhannu â hwy. Mae Cymal 68 (2) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Cynigir fod y rheoliadau hyn yn destun diddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cymal 69: Cyrchfannau

19. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran newydd 49B yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae isadran (2) o'r adran newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i rannu gwybodaeth o'r fath gyda sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

20. "Gwybodaeth cyrchfan", mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach, yw gwybodaeth sy'n ymwneud â chyn-fyfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r myfyrwyr ar ôl iddynt adael y sefydliad (isadran (3) yr adran newydd).

21. Bydd y rheoliadau yn rhagnodi pa weithgareddau yw'r rheiny. O dan isadran (5) o'r adran newydd, ni chaiff gwybodaeth cyrchfan a dderbynnir o dan y rhan newydd ei chyhoeddi ar ffurf sy'n nodi'r pwy yw'r unigolyn.

22. Mae Cymal 69 (3) (b) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Byddai'r rheoliadau hyn yn destun diddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

23. Mae'r darpariaethau y mae Cymal 9 (Allforion) yn cyfeirio atynt yn ymwneud â mater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Bwnc 4 "*Datblygu economaidd*" o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn benodol o ran hybu busnes a chystadleuaeth.

24. Mae'r darpariaethau y mae Cymalau 67-69 (Gwerthusiad Addysg) yn cyfeirio atynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Bwnc 5 "*Addysg a hyfforddiant*" o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 am eu bod yn ymwneud â hyfforddiant addysg, galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaeth gyrfaoedd, a hyrwyddo'r datblygiad a'r defnydd o wybodaeth.

25. Felly, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6; a hefyd, o safbwynt Llywodraeth y DU, yn unol â'r nodyn canllaw ar ddatganoli rhif 9 diwygiedig.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

26. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r peth mwyaf effeithiol a phriodol yw bod darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad yn cael eu datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Casgliad

27. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil yn cynnig gwneud y rheoliadau o dan gymalau 68 a 69 drwy'r weithdrefn "negyddol". Fodd bynnag, ein barn ni, gan eu bod yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth am unigolion a allai fod yn sensitif, yw y byddai'r weithdrefn "gadarnhaol" yn fwy addas, felly dyna yw ein hargymhelliad.